


EICH

TAITH



AT DDOD YN BAROD
AR GYFER YR ARHOLIADAU

CROESO I LEFEL 2

**GOFAL, CHWARAE, DYSGU, A DATLYGIAD PLANT
(CRAIDD)**



Mae'r cymhwyster yn ymdrin â'r wybodaeth a'r dealltwriaeth sylfaenol o'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan newydd ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ac mae'n adlewyrchu amrywiaeth o wahanol rolau ac oeddrannau.

CYNLLUNIO YMLAEN...

Luniwyd y cymhwyster ar gyfer dysgwyr ôl-16 yng Nghymru, sy'n gweithio neu sydd am weithio yn y canlynol:

- lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theluoedd a phlant dan 8 oed
- gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theluoedd a phlant 0-19 oed.

Mae hyn yn cynnwys lleoliadau iechyd plant. Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer dysgwyr sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 1 neu nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol am y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Drwy gwblhau'r cymhwyster hwn bydd dysgwyr yn gallu:

- meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r egwyddorion a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i ymarfer gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant

- meithrin eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ffyrdd o weithio yn y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n llywio ymarfer effeithiol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- bod â gwybodaeth a dealltwriaeth graidd i'w cefnogi wrth symud ymlaen i astudio ymhellach neu gyflogaeth yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i ennill cymwysterau pellach gan gynnwys y cymwysterau canlynol sy'n rhan o'r gyfres o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant i Gymru

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

GWNEWCH EICH GORAU GLAS!

AWGRYMIADAU

Adolygu ar gyfer eich asesiadau mewnol ac allanol

Paratoi nodiadau adolygu o ansawdd da wrth baratoi ar gyfer asesiadau mewnol

Darllen y cwestiwn yn drylwyr, meddwl am eich ateb ac ysgrifennu'n fanwl

Mynychu pob gweithdy i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth yn barod ar gyfer eich asesiad mewnol ac allanol

Defnyddio'r adnoddau rhyngweithiol sydd ar gael ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru i'ch helpu chi i adolygu

CANLLAWIAU LLESIANT

Cymerwch gamau bach.

Cofiwch mai taith yw hon a byddwch yn meithrin sgiliau a gwybodaeth ar hyd y ffordd.

Cymerwch egwylion rheolaidd o adolygu.

Gwnewch ymarfer corff, ewch i weld ffrindiau, treuliwch amser â'r teulu.

Edrychwch ar ôl eich hun.

Gwnewch yn siŵr bod eich deiet yn gytbwys a'ch bod yn cael digon o gwsg.

Byddwch yn bositif.

Hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo fel hynny, bydd agwedd bositif yn eich helpu chi.

Cofiwch fod pawb yn wahanol.

Ceisiwch beidio â chymharu eich hun ag eraill.

SUT BYDDWCH CHI'N CAEL EICH ASESU?

Caiff y cymhwyster ei asesu drwy gyfuniad o asesu mewnol ac allanol. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- tri asesiad mewnol, seiliedig ar senario, wedi'u gosod yn allanol; ac
- un prawf dewis lluosog i'w osod a'i farcio'n allanol.

